

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**Cofnodion** Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach ddydd Mercher, 29 Tachwedd, 2017 am 5.00 p.m.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Powderhill – Y Dirprwy Faer

### **Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

|                |              |                |
|----------------|--------------|----------------|
| L.M.Adams      | J.Harries    | M.J.Powell     |
| D.R.Bevan      | L.Hooper     | S.M.Powell     |
| S.A.Bradwick   | G.E.Hopkins  | S.Rees         |
| J.Brencher     | P.Howe       | S.Rees-Owen    |
| A.Calvert      | G.W.Hughes   | A.Roberts      |
| G.Caple        | J.James      | J.Rosser       |
| A.Chapman      | P.Jarman     | R.W.Smith      |
| A.G.Cox        | G.Jones      | G.Stacey       |
| A.Crimmings    | K.L.Jones    | E.S.Stephens   |
| J.L.Cullwick   | L.Jones      | G.P.Thomas     |
| G.R.Davies     | W.Jones      | R.K.Turner     |
| J.R.Davies     | R.Lewis      | L.G.Walker     |
| A.Davies-Jones | W.Lewis      | M.O.Weaver     |
| M.Diamond      | C.Leyshon    | M.Webber       |
| J.Elliott      | D.Macey      | E.Webster      |
| S.Evans        | A.Morgan     | G.D.G.Williams |
| M.Fidler Jones | S.Morgans    | D.H.Williams   |
| E.George       | M.Norris     | J.Williams     |
| D.Grehan       | W.Owen       | C.J.Willis     |
| M.Griffiths    | D.Owen-Jones | R.Yeo          |
|                | S.Pickering  |                |

### **Swyddogion yn Bresennol**

Mr.C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr.C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol  
a Gwasanaethau Rheng-flaen

Mr.G.Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Cymuned  
a Gwasanaethau i Blant

Mr.C.B.Jones – Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr.C.Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau  
Cyhoeddus

Ms.K.May – Pennaeth Gwasanaethau Llywdoraethol

## **67 CADEIRYDD**

Yn absenoldeb y Maer, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Powderhill.

## **68 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J.Bonetto, L.De Vet, S.M.Evans, M.Forey, A.S.Fox, H.Fychan, G.Holmes, K.Morgan, M.Tegg, W.Treeby a T.Williams.

## **69 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol yn y cyfarfod:-

- Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Bradwick mewn perthynas ag Eitem 13 ar yr Agenda – Strwythur Uwch Reoli'r Cyngor – “Mae un o'r unigolion a enwir yn y Strwythur Uwch Reoli yn aelod o'r Corff Llywodraethu rwy'n Gadeirydd arno”.
- Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Elliott mewn perthynas ag Eitem 13 ar yr Agenda – Strwythur Uwch Reoli'r Cyngor - “Mae un o'r unigolion a enwir yn y Strwythur Uwch Reoli yn aelod o'r Corff Llywodraethu Ysgol rwy'n Gadeirydd arno”.

## **70 DEISEBAU**

Cyflwynwyd y deisebau canlynol i'r Dirprwy Faer yn y cyfarfod:-

- Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Harries ar ran trigolion Maerdy yn gofyn am fesurau arafu traffig ym Mhlas y Parc, Maerdy i sicrhau diogelwch y trigolion sy'n defnyddio'r parc a'r Ganolfan Gymunedol.
- Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.E.Hopkins ar ran trigolion Llanharan yn gofyn am gael gwared ar fesurau arafu traffig rhwng Hillside Road, Llanharan a Brynna.
- Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.O.Weaver ar ran Ysgol Fabanod Ton Pentre yn gofyn am symud y groesfan y tu allan i Weavers Garage yn agosach at y Swyddfa Bost, gan fod y groesfan ar dro ac mae ceir wedi'u parcio yn atal staff Patrolio'r Groesfan a theuluoedd sy'n cerdded i'r ysgol rhag gallu gweld yn glir.

## **71 CYHOEDDIADAU**

(1) Roedd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Morgans am longyfarch Tîm Siarad Cyhoeddus Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ar ennill y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Genedlaethol. Bu'r myfyrwyr chweched dosbarth yn cystadlu yn erbyn saith ysgol arall yn rownd derfynol y gystadleuaeth cyfrwng Cymraeg a gynhaliwyd yn Adeilad Cynulliad Cymru ar 13 Tachwedd 2017 a drefnwyd gan Rotari Cymru.

(2) Cyhoeddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.Grehan y bydd criw o drigolion lleol Tonyrefail/Gilfach Goch yn ymddangos ar y rhaglen `Let's Get a Good Thing Going` a fydd yn cael ei darlledu gan y BBC ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i bobl leol ymgeisio am arian i'w wario ar brosiectau cadarnhaol sy'n dod â budd i'r gymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Grehan fod trigolion Tonyrefail/Gilfach Goch yn gwneud cais am gyllid ar gyfer diffibrilwyr. Roedd y Cynghorydd Grehan am ddiolch i'r Cynghorydd D.Owen-Jones am gyflwyno'r enwebiad.

- (3) Cyhoeddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis fod £19,821.63 wedi'i godi yn ystod ei flwyddyn fel Maer ac y byddai'r swm yn cael ei rannu rhwng yr elusennau o'i ddewis.
- (4) Cyhoeddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis hefyd y byddai ef a'r Cynghorwyr G.Hughes ac M.Fidler Jones yn rhedeg yn Nos Galon. Roedd blwch casglu yn mynd o amgylch y siambr a byddent yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau.
- (5) Dymunodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan, yn dda i Lloyd Macey, mab y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.Macey, ar ôl ei lwyddiant yn dilyn rownd gynderfynol yr X Factor, a welwyd gan bobl ar draws y byd ac sydd wedi rhoi'r Fwrdeistref Sirol ar y map.

Diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.Macey i bawb am eu cefnogaeth.

- (6) Dywedodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber, wrth Aelodau fod croeso i bawb fynychu Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Santes Catrin, Pontypridd ddydd Sul 3 Rhagfyr, 2017. Bydd y Maer a'i Chydweddog yn bresennol.
- (7) Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Yeo y bydd ei wraig yn rhedeg ras nawdd i godi arian ar gyfer Calonnau Cymru a bod blwch casglu yn mynd o amgylch pe bai Aelodau/Swyddogion eisiau cyfrannu.

**72 TEYRNGEDAU I MR.TONY WILKINS, CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL**

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan, mai hwn oedd Cyfarfod Cyngor olaf Mr.Tony Wilkins, y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol gan ei fod yn ymddeol yfory, 30 Tachwedd, 2017. Diolchodd yr Arweinydd i Mr. Wilkins am ei waith ar ran y Cyngor dros flynyddoedd lawer o wasanaeth a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo.

Talodd Arweinydd y brif Wrthgrŵp, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Jarman, deyrnged i Mr.Wilkins hefyd a diolchodd iddo am ei gefnogaeth.

Gyda chaniatâd y Dirprwy Faer, diolchodd Mr.Peter Crews, Ysgrifennydd Cangen UNSAIN, i Mr.Wilkins am ei gefnogaeth i'r Undebau dros y blynyddoedd.

## **73**    **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** – cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2017 fel cofnod cywir.

## **74**    **LLYWODRAETH AGORED – DATGANIAD**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 2 o Gyfansoddiad y Cyngor, dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd yn amlinellu cynlluniau buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau cyllid ac a fydd yn cynnwys ysgolion yr 21ain Garrif, ailddatblygu Cwm Taf a buddsoddiad ychwanegol mewn gofal.

## **75**    **CWESTIYNAU'R AELODAU**

### **(a)    Gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies i Aelod y Cabinet ar gyfer Menter, Datblygu a Thai (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

“A fyddwch chi'n gwneud datganiad ar y Cynllun Datblygu Lleol?”

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

“Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi bod mewn bodolaeth ers 2011 ac mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau cynllunio. Mae'n cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i Lywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei roi ar waith tan 2021 ac mae wedi helpu i sicrhau miloedd o gartrefi newydd yn Rhondda Cynon Taf, gyda 2,000 ohonynt wedi'u creu yn y rhan ogleddol. Mae'n ddogfen gadarn”.

#### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies**

“Mae dwy ran i'r Cynllun Datblygu Lleol – un rhan ar gyfer y Gogledd ac un rhan ar gyfer y De. Yn anffodus, mae'r bobl ddifreintiedig yn y Gogledd lle mae llawer o dlodi, mwy o salwch a phobl yn marw saith mlynedd ar gyfartaledd yn gynt na phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy breintiedig. Mae diboblogi'n digwydd ac mae hyn i'w weld drwy nifer yr adeiladau gwag. Yn fy Ward i'n unig, mae dros 200 o gartrefi gwag. Un ffordd o ddatrys y sefyllfa hon yw gwella cysylltiadau trafniadaeth a'r cwestiwn hoffwn i ei ofyn fel un atodol yw beth yw statws ffordd osgoi Treorci a'r Gelli; a oes arian yn cael ei glustnodi ar gyfer y datblygiad hwn yn y dyfodol?”

#### **Ymateb y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

“Mae Rhondda Fach yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer datblygu ac mae angen cynnwys Rhondda Fawr Uchaf. Mae yna Aelodau ar eich ochr chi o'r Siambr sydd ddim am i hynny ddigwydd. Mae'n rhywbeth sydd ei angen yn ddybryd ac yn rhywbeth y mae'r Weinyddiaeth hon yn barod i edrych arno a'i roi ar waith”.

**(b) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol C.J.Willis i Aelod y Cabinet ar gyfer yr Amgylchedd a Hamdden (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

“Sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod gan bob trigolyn fynediad at gyfleusterau chwaraeon modern?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Crimmings**

“Mae creu bwrdeistref iach ac egnïol yn un o amcanion craidd y Cyngor hwn. Rydym ni eisoes wedi buddsoddi £2 filiwn yn y cyfleusterau sydd ar gael, yn cynnwys Canolfan Chwaraeon Llanilltud Faerdref. Rydym ni wedi buddsoddi mewn cyfleusterau awyr agored sy'n cynnwys gosod saith maes 3G gyda 5 arall yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod trigolion yn eich Ward wedi elwa ar faes 3G. Bydd gan bob trigolyn faes 3G o fewn 3 milltir i'w gartref”.

**Sylwadau gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol C.J.Willis**

Nid oedd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol C.J.Willis am ofyn cwestiwn atodol ond diolchodd i'r Cyngor am y buddsoddiad, a fyddai'n elwa pob ardal yn cynnwys y Ward mae'n ei gynrychioli h.y. Tynant.

**(c) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Morgans i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber)**

“Sut mae'r Cyngor yn cynorthwyo canol trefi i fanteisio ar gyfleoedd masnachu'r Nadolig?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber**

“Rwy'n falch o ddweud y bydd y Cyngor, unwaith yn rhagor, yn cefnogi llawer o ddigwyddiadau yn y cyfnod cyn y Nadolig, yn cynnwys yn eich Ward chi yng Nglynrhedynog lle mae arian wedi'i ddyrannu i chi ei wario ar ddathliadau'r ŵyl. Bydd cefnogi'r digwyddiadau hyn yn denu mwy o bobl ac yn creu gwell cyfleoedd i gynyddu masnach”.

**Sylwadau gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Morgans**

Nid oedd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Morgans am ofyn cwestiwn atodol ond diolchodd i'r Cyngor am gynnal y digwyddiad Nadolig yng Nglynrhedynog.

**(d) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Brencher i Aelod y Cabinet ar gyfer Menter, Datblygu a Thai (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

“Mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni ei uchelgeisiau sylweddol ar gyfer Pontypridd. Beth allwn ni ei wneud nesaf i barhau â'r momentwm newid a buddsoddiad?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

“Diolch am eich cwestiwn. Fel y gwyr Aelodau, rydym ni wedi buddsoddi ym Mhontypridd a bydd datblygiad Cwm Taf yn mynd rhagddo yn y dyfodol agos. O ran y brifddinas-rhanbarth, bydd 1,000 o swyddi'n dod i Gwm Taf. Mae angen i ni gydnabod y bydd 12 trên yr awr yn bosibl gyda'r Metro. Pobl a allai fod angen cymudo o Gaerdydd i'r Cymoedd i weithio yn hytrach na mynd y ffordd arall. Nodwyd Pontypridd fel canolfan hollbwysig gan Dasglu'r Cymoedd. Rydym ni i gyd yn symud i'r un cyfeiriad i ailddatblygu Pontypridd a'r cyffiniau”.

**Cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Brencher**

“Beth yw'r ardaloedd allweddol ym Mhontypridd sy'n gallu ysgogi'r twf hwn ymhellach?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

“Rydym ni'n ffodus iawn, mae gennym ni system Addysg Bellach dda gyda Choleg y Cymoedd, datblygiad newydd ym Mhentre'r Eglwys. O safbwynt addysg rydym ni'n gweld buddsoddiad yn Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae gennym ni Brifysgol ar garreg y drws hefyd, felly mae'n dda i hyrwyddo RhCT. Mae yna ardaloedd strategol eraill sydd wedi'u nodi ar gyfer buddsoddiad. Cyfeiriwyd atynt gan y Cyngorydd G.Davies yn ei gwestiwn yn gynharach e.e. y Ganolfan Gymunedol a'r ardaloedd ar gyfer tai a thwristiaeth yw ardal Rhondda uchaf. Mae ystod enfawr o weithgareddau a chyflawniad ar gyfer pobl RhCT er mwyn sbarduno'r agenda adfywio yn ei blaen”.

**(e) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol E.George i Ddirprwy Aelod y Cabinet ar gyfer Ffyniant a Llesiant (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis)**

“A wnaiff yr Aelod Cabinet ddiweddarau'r Cyngor ar sut mae'r fenter RhCT Gyda'n Gilydd yn cefnogi grwpiau cymunedol?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis**

“Nod RhCT Gyda'n Gilydd yw gweithio gyda chymunedau a sefydliad partner i ddarparu dull cydweithredol a rhannu cyfrifoldebau o ran rheoli asedau. Mae dwy gronfa ar gael - y gronfa Gweithredu Cymunedol sy'n cael ei rheoli gan Interlink a'r ail yw'r gronfa Galluogi Cymunedau, sef cronfa ddielw sy'n rhoi hyd at £10,000 i helpu asedau cymunedol. Mae ychydig llai na £100,000

wedi'i ddyrannu i gynorthwyo gyda throsglwyddo asedau cymunedol a hyd yma mae 18 grŵp wedi bod yn rhan o'r broses RhCT Gyda'n Gilydd".

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol E.George**

"Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad diweddar fod y Cyngor yn mynd i'n cynorthwyo i gadw'r pyllau padlo ar agor".

### **Ymateb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis**

"Cynhaliwyd cyfarfod yn gynharach y mis hwn, dan arweiniad yr Arweinydd, Andrew Morgan, y Cynghorydd A.Crimmings a minnau. Cafwyd cyfarfod gyda grwpiau Pyllau Padlo sydd wedi'u lleoli yn RhCT, lle i ni gadarnhau ein cefnogaeth a bydd £5,000 yn cael ei ddyrannu i bob grŵp, gan gadarnhau eto ein hymrwymiad i'r sector gwirfoddol. Bydd timau RhCT Gyda'n Gilydd yn gweithio gyda'r grwpiau hynny".

## **ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR, GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

### **76 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR – PENODI CADEIRYDDION PWYLLGORAU A DYRANNU HYSBYSIADAU O GYNIGION**

Yn ei adroddiad, hysbysodd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, Aelodau o ganlyniad yr adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn ffurfio'r grŵp gwleidyddol 'Alliance' a gofynnwyd i'r Cyngor ystyried dyrannu Hysbysiadau o Gynigion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:-**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol grwpiau a chyrrff gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn berthnasol iddo, yn unol â'r manylion yn yr Atodiad i'r adroddiad;
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i wneud penodiadau i gyrff gwleidyddol-gytbwys pan fydd yn derbyn, fel Swyddog Priodol, hysbysiad am ddymuniadau'r grwpiau gwleidyddol, yn amodol, yn achos ceisiadau dilynol i ddiwygio aelodaeth Pwyllgorau, ar gael eu cyfeirio i'r Cyngor;
3. Penodi'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol a phenodi'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethol;
4. Dyrannu Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad i'r grŵp Alliance a dyrannu Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc i'r grŵp Plaid Cymru;

5. Enwebu'r Aelodau canlynol fel Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fel y dangosir isod:-
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L.M.Adams – Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Rees-Owen – Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.J.Powell – Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.Yeo – Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.A.Bradwick – Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
  
6. Enwebu'r Aelodau canlynol fel Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fel y dangosir isod:-
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Thomas – Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol W.Lewis – Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Holmes – Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Elliott – Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles
  - Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol T.Williams – Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
  
7. Dyrannu Hysbysiadau o Gynigion ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2017-18 fel y dangosir isod:-
  - Llafur – 4
  - Plaid Cymru – 3
  - Alliance – 1
  - Ceidwadwyr – 1
  - Heb ei ddyrannu – 1

**CYD-ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A'R CYFARWYDDWR CYFADRAN, GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A GWASANAETHAU RHENG-FLAEN**

**77 MABWYSIADU RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACT WEDI'U DIWEDDARU**

Yn eu cyd-adroddiad, hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen Aelodau am argymhellion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu a Chyfansoddiad Corfforaethol yn dilyn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Hydref ac 16 Tachwedd, 2017 yn ôl eu trefn; sef bod y



Cyngor yn mabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefnau Contract wedi'u diweddarau fel ag y maent yn yr atodiad i'w hadroddiad.

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD:-**

1. Nodi argymhellion Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Llywodraethu a Chyfansoddiad Corfforaethol y Cyngor y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefnau Contract wedi'u diweddarau fel ag y maent yn yr atodiad i'r adroddiad; a
2. Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefnau Contract wedi'u diweddarau fel ag y maent yn yr atodiad i'r adroddiad yn amodol ar y polisi caffael moesegol y cyfeirir ato yn y ddogfen; a bod y newidiadau dilynol i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu cymeradwyo.

## **ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

### **78 PWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELODAU ANNIBYNNOL AC AELODAU CYNGHORAU CYMUNED**

Yn dilyn Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2017 a Chyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol Aelodau am argymhellion y Panel Penodiadau a sefydlwyd i gyfweled y pedwar ymgeisydd ar gyfer y ddwy swydd wag (ac un wrth gefn) ar gyfer Aelodau Annibynnol ac ystyried y ceisiadau i fod yn Aelod o Gyngor Cymuned.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:-**

1. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi Mr. John Thomas yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor o chwe blynedd yn dechrau ar 30 Tachwedd, 2017;
2. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi'r Cynghorydd Cymuned Raymond Butler (Llanilltud Faerdref) fel Aelod Cyngor Cymuned y Pwyllgor Safonau gan ddechrau ar 30 Tachwedd, 2017 am dymor arall tan yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref;
3. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi'r Cynghorydd Cymuned Carole Willis (Pontyclun) fel Aelod Cyngor Cymuned wrth gefn y Pwyllgor Safonau gan ddechrau ar 30 Tachwedd, 2017 am dymor tan yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer Cyngor Cymuned Pontyclun

4. Nodi y bydd angen i'r Cyngor ail-hysbysebu'r swydd Aelod Annibynnol (ac un wrth gefn) gan mai dim ond un ymgeisydd a gafodd ei argymhell gan y Panel ar gyfer y swyddi gwag sydd ar gael;
5. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i osod hysbyseb bellach ar gyfer y swyddi gwag ar gyfer Aelod Annibynnol (ac un wrth gefn) (ar sail y meini prawf sydd wedi'u pennu ar gyfer y swydd) a chytuno bod y Panel Penodiadau (yn unol â pharagraff 4.8 yn yr adroddiad) yn cyfarfod i ystyried ymgeiswyr ar gyfer y swyddi hynny a bod ei argymhellion yn cael eu hadrodd i'r Cyngor pan fo'n briodol.

**Nodyn:** Roedd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.Hooper a J.James yn dymuno i gofnod gael ei wneud eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y Cynnig uchod.

### **ADRODDIAD Y CABINET**

#### **79 CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen, adroddiad y Cabinet a oedd yn amlinellu'r sefyllfa ynghylch adnoddau untro a oedd wedi dod ar gael yn dilyn adolygiad o gronfeydd wrth gefn y Cyngor sydd wedi'u clustnodi ar ôl cwblhau'r broses o archwilio Datganiad o Gyfrifon 2016/17 y Cyngor.

#### **PENDERFYNWYD:-**

1. Y byddai'r Cyngor yn cytuno i ryddhau o gronfeydd wrth gefn y cyllid (untro) a sicrhawyd o ganlyniad i'r adolygiad o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, fel y nodir ym mharagraff 4 yr adroddiad; a
2. Bod y cyllid sy'n cael ei ryddhau yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi fel y'u nodir ym mharagraff 5 (Tabl 1) yr adroddiad, a fydd wedyn yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Gyfalaf tair blynedd y Cyngor.

### **ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFADRAN, GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A GWASANAETHAU RHENG-FLAEN**

#### **80 ADRODDIAD STIWARDIAETH RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2017/18**

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen wybodaeth i Aelodau am:-

- Weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod chwe mis cyntaf 2017/18; a
- Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer yr un cyfnod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** – cymeradwyo cynnwys yr adroddiad yn cynnwys:-

1. Cymeradwyaeth i gynyddu'r Terfynau Awdurdodedig ar gyfer pob un o'r 3 blynedd, fel y nodir ym mharagraff 9.2 yr adroddiad;
2. Cymeradwyaeth i gynyddu'r terfyn Buddsoddiadau Amhenodol i £25 miliwn gyda chyfnod aeddfedu hiraf o 30 mlynedd, fel y nodir ym mharagraff 11.3 yr adroddiad;
3. Cymeradwyaeth i gynyddu'r terfyn ar gyfer Buddsoddiadau sy'n para mwy na 364 diwrnod i £25 miliwn, fel y nodir ym mharagraff 11.5 yr adroddiad;
4. Cymeradwyaeth i ddarparu cyllid Benthyciad Pontio i CSC Foundry Ltd fel sy'n briodol ac yn ofynnol yn unol â'r cytundeb cyfranddeiliaid, fel y sonnir yn Adran 13 yr adroddiad.

## **81 DEDDF LLYWODRAETH LEOL**

**PENDERFYNWYD** – gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod o dan Adran 100A(4) y Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer y materion busnes canlynol am y rheswm ei bod hi'n debygol y bydd gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

## **CYD-ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR A'R CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL (YN CYNNWYS GWYBODAETH ESEMPT)**

## **82 STRWYTHUR UWCH-REOLI'R CYNGOR**

Ar ôl ystyried cyd-adroddiad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwybodaeth esempt, **PENDERFYNWYD:-**

1. Bod y Cyngor yn nodi:-  
  
Rhwyng hydref 2017 a gwanwyn 2018, y bydd y strwythurau cyfarwyddiaethau diwygiedig sydd i'w gweld yn Atodiadau 2(i.a), 2(i.b), 2(ii), 2(iii), 2(iv.a) a 2(iv.b) i'r adroddiad yn cael eu gweithredu. Bydd gweithredu'r strwythurau diwygiedig hyn yn darparu gostyngiad amcangyfrifedig cyffredinol mewn costau rheoli blynyddol ar lefelau gradd Uwch a Chysylltiedig o £760, 270 (yn cynnwys argostau);
2. Yn deillio o'r strwythurau cyfarwyddiaethau diwygiedig fel yr amlinellir uchod (1), awdurdododd y Cabinet y swyddi canlynol i gael eu diwygio:-

- (i) diwygio swydd Pennaeth Cyflawniad Uwchradd (gradd Soulbury) o 1 Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) i 0.5FTE;
  - (ii) diwygio teitl swydd Prif Swyddog – Seicoleg Addysgol (gradd Soulbury) i Bennaeth Seicoleg Addysgol (gradd Soulbury);
  - (iii) diwygio teitl swydd Prif Swyddog – Cymorth Dysgu (gradd Soulbury) i Bennaeth Cymorth Dysgu (gradd Soulbury);
  - (iv) diwygio swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol o radd Soulbury i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
  - (v) diwygio swydd Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad o Bennaeth Gwasanaeth Lefel 2 i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
  - (vi) diwygio swydd Cyfarwyddwr Adfywio a Chynllunio o Gyfarwyddwr Lefel 2 i Gyfarwyddwr Lefel 1;
  - (vii) diwygio swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Cyfarwyddwr Lefel 1) o 0.6 FTE i 1 FTE;
  - (viii) diwygio swydd Pennaeth Datblygu Sefydliadol o Bennaeth Gwasanaeth Lefel 2 i Bennaeth Gwasanaeth Lefel 1;
  - (ix) diwygio swydd Pennaeth Dros Dro Caffael a Rheoli Ynni (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Bennaeth Caffael a Rheoli Ynni (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) (0.6 FTE); a
  - (x) diwygio'r swydd Pennaeth Dros Dro Archwilio a Rhaglenni Datblygu Caffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i Bennaeth Archwilio a Rhaglenni Datblygu Caffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2).
3. yn deillio o'r strwythurau cyfarwyddiaethau diwygiedig fel yr amlinellir yn 1 uchod, awdurdododd y Cabinet y swyddi canlynol i gael eu creu:-
- (i) creu swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr Lefel 2)
  - (ii) creu swydd Pennaeth Cymorth Cynghori Ysgolion (gradd Soulbury)
  - (iii) creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Cynhwysiant (gradd Soulbury);
  - (iv) creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymunedol (Cyfarwyddwr Lefel 2)
  - (v) creu swydd Pennaeth Adfywio a Ffyniant (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1)
  - (vi) creu swydd Pennaeth Cysylltiadau Gweithwyr Cyflogedig (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
  - (vii) creu swydd Pennaeth y Gyflogres a Gwasanaethau Pensiwn (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1)
  - (viii) creu swydd Pennaeth Cyllid a Thaliadau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2); a
  - (ix) chreu swydd Pennaeth Prosiectau Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2).
- 4 Cytunwyd i drosglwyddo swyddogaethau penodol a amlinellir yn yr adroddiad o Addysg a Dysgu Gydol Oes i Iechyd a Diogelwch y

Cyhoedd ac ailenwi'r maes gwasanaeth diwygiedig yn Wasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymunedol (sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau i Blant); a

- 5 Chytunwyd i drosglwyddo swyddogaethau penodol a amlinellir yn yr adroddiad o Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i Adfywio a Chynllunio (sy'n rhan o gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr).
- 6 Cytuno i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Penodiadau ar 7 Tachwedd, 2017 i'r Cyngor, y dylai Paul Mee, yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, gael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymunedol (Cyfarwyddwr – Lefel 2) ac i hynny ddod i rym ar 1 Rhagfyr, 2017;
- 7 Cytuno i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Penodiadau ar 7 Tachwedd, 2017 i'r Cyngor, y dylai Jane Cook, yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, gael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr Adfywio a Chynllunio (Cyfarwyddwr – Lefel 1) ac i hynny ddod i rym ar 1 Rhagfyr, 2017;
- 8 Cytuno i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Penodiadau ar 7 Tachwedd, 2017 i'r Cyngor, y dylai Richard Evans, yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, gael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol (Cyfarwyddwr – Lefel 1), ac i hynny ddod i rym y diwrnod ar ôl i TW (deilydd cyfredol y swydd) ymddeol;
- 9 Cytuno i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Penodiadau ar 7 Tachwedd, 2017 i'r Cyngor, y dylai Gaynor Davies, yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, gael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Cyfarwyddwr – Lefel 2), ac i hynny ddod i rym y diwrnod ar ôl i ET ymddeol;
- 10 Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, i wneud y newidiadau dilynol sydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i weithredu'r mentrau uchod.

**CYD-ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR A'R CYFARWYDDWR CYFADRAN, GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN (YN CYNNWYS GWYBODAETH ESEMPT)**

**83 ARIANNAU AILADDATBLYGU CWM TAF GAN DDEFNYDDIO BENTHYG DARBODUS**

Ar ôl ystyried cyd adroddiad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen, yn cynnwys gwybodaeth esempt, **PENDERFYNWYD:-**

1. Cytuno i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf cost lawn (fel y'i hamlinellwyd) cynllun Ailddatblygu Cwm Taf
2. Cytuno i'r pecyn cyllid fel y'i hamlinellir ym mharagraff 4.3;
3. Cytuno bod y Cyngor yn ariannu'r swm fel y nodir yn yr adroddiad, drwy fenthyg, gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor o dan y Cod Darbodus.

**S.POWDERHILL**

**DIRPRWY FAER**

**Gorffennodd y cyfarfod am 7.26 p.m.**